

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn
Cadeirydd: Alwyn Roberts

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Tachwedd 3ydd, 2015

Presennol: Alwyn Roberts (Cadeirydd), Beryl Hughes Griffiths (is gadeirydd), Huw Antur, , Dewi Jones, Karl Jones, Catrin Roberts, Huw P Roberts, Ian Trow Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

1494 Croesawyd pawb gan y Cadeirydd a derbyniwyd ymddiheuriadau Heledd Jones.

1495 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

1496 Derbyniwyd datganiad buddiant gan Catrin Roberts ar fater Llwybr y Cwn a gadawodd yr ystafell.

1497 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion 6/10/15.

1498 Materion yn codi o'r Cofnodion nad oedd ar yr Agenda, a Materion y Clerc:

- i. Cytunodd y Cadeirydd i gael gair gyda'r tirfeddiannwr parthed mater clirio'r ffos wrth Glanaber.
- ii Derbyniwyd llythyr oddi wrth Cyngor Gwynedd yn egluro'r oedi i'r gwaith ar Lwybr Tegid; cytunodd Huw Antur i ohebu ymhellach ar y mater gan nad oedd yr ateb yn cwrdd â phryderon tirfeddianwyr a thrigolion lleol.
- iii Diolchwyd i Gyngor Gwynedd am glirio'r cerrig ar waelod ffordd y Pyrse.

1499 **Adroddiad y Cyngorydd Sir:** nid oedd Alan Jones Evans yn gallu bod yn bresennol.

1500 **Materion Eiddo'r Cyngor:**

- i. Mae'r gwaith o ddiogelu'r llechi rhydd wrth y gilfach goffa mewn llaw a diolchwyd i Karl Jones ac Ian Trow am eu cymwynasgarwch.
- ii Cadarnhawyd penderfyniad Is bwyllgor y Fynwent i bwrcasu Hysbysfwrdd i'r Fynwent Newydd. **Tynnir sylw caredig teuluoedd i'w dyletswydd i drwsio a diogelu cerrig; ar yr un pryd, mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i sicrhau diogelwch yn y fynwent gan ddefnyddio'u hawl i symud cerrig beddau a all fod yn beryglus.**
- iii Diolchwyd i Karl Jones am ei waith yn paratoi trefnlen o'r gwaith cynnal a chadw ar y llochesi bws a chysylltu gydag adeiladwyr lleol. Cytunodd y Cadeirydd i drafod gyda'r tirfeddiannwr yr angen am fynediad at gefn lloches bws Peniel er mwyn cyflawni'r gwaith.

1501 Materion y Swyddog Ariannol

Cytunwyd i adnewyddu tâl aelodaeth SLCC ar y cyd gyda Chyngor Tref Y Bala (£103)

Cytunwyd i dalu:

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Alwyn Roberts

anfoneb Hacker Young (£246)
ffi aelodaeth a gwaith Mantell Gwynedd (£210)
Y Cyfnod am hysbyseb yn hyrwyddo gwaith CAB (£30)

1502 **Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned:**

Gan fod y rwbel a gwastraff a adawyd ym maes parcio'r fynwent yn cynnwys tarmac, cytunwyd i ofyn i Alan Jones Evans gysylltu gyda Chyngor Gwynedd er mwyn ei glirio yn dilyn gwaith a wnaethpwyd yn ddiweddar yn gosod arwyddion ar y ffordd A494.

1503 **Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a chyfeiriwyd yn benodol at ymweliad Ymddiriedolwr yn dilyn cais a wnaethpwyd am grant i'r Gronfa Cefn Gwlad. Adroddwyd fod llawer o bobl ifanc wedi mynegi eu barn yn glir a huawdl yng nghyfarfod diweddar o Her Gwynedd. Anogwyd swyddogion Gwynedd i holi'r ieuenctid ymhellach i ganfod eu barn ar sut i ddarparu gwasanaethau'n gymunedol.

1504 **Gohebiaeth:**

1. **Parc Cenedlaethol Eryri:** Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei roi i adeiladu estyniad a gosod ffenest dormer a ffenestri to ym Mhenrhiwdwrch.
2. **Gwynedd:** Ystyriwyd y gwahoddiad i lenwi'r biniau halen ar gost o £156 yr un ac i osod mwy o finiau halen ar gost £281 yr un yn cynnwys cyflenwad halen ar ôl 1/4/16. Nid oes dyletswydd statudol ar Gynghorau i ddarparu biniau na halen. Cytunwyd i holi'n lleol am ddefnyddioldeb y gwasanaeth halen - gan gymryd yn ganiataol y bydd y gwasanaeth graeanu yn parhau fel y mae. Er mwyn pwyso a mesur cyn gwneud unrhyw archebu, cytunwyd i ofyn i Gyngor Gwynedd pa mor aml yr oedd y biniau yn cael eu hail-lenwi yn y gorffennol. Hefyd gofynnir i Gyngor Gwynedd a ydyw'n fwriad ganddynt i gasglu'r biniau presennol neu yn eu gadael yn eu safleoedd at ddefnydd y bobl leol os na archebir halen.

Nodwyd i'r Clerc ateb ymholiad Cyngor Gwynedd parthed pobl sydd yn cysgu ar y stryd.

3. Nodwyd gwahoddiad Mantell Gwynedd i agoriad swyddogol yn Nolgellau.

1505 Derbyniwyd Adroddiad o'r Hyfforddiant ar y Côt Ymddygiad 14/10/15

Cytunwyd i osod y materion canlynol ar Agenda'r Cyfarfod nesaf ar 1/12/15 yn y Neuadd Bentref:

i Wyneb a chynnal Llwybr y Cŵn

ii Amser goleuo'r arwyddion 20mya wrth yr ysgol